Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 6 Mehefin 2013**

Amser:
**14:00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Polisi: Tom Jackson**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8597
Publicaccounts.comm@Wales.gov.uk

## Agenda

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 1. Y diweddaraf gan Lywodraeth Cymru ar weithredu'r argymhellion a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 'Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai'

**2 (14.05 - 15.00)** (Tudalennau 1 - 12)
PAC(4) 16-13 - Papur 1 - Y diweddaraf gan Lywodraeth Cymru ar 'Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai'
Yr Athro Jean White, Prif Swyddog Nyrsio, Llywodraeth Cymru

### 3 Y diweddaraf gan Lywodraeth Cymru ar weithredu'r argymhellion a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus' (15.00 - 16.00) (Tudalennau 13 - 33)

PAC(4) 16-13 - Papur 2 - Y diweddaraf gan Lywodraeth Cymru ar 'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus'
Dr June Milligan, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Llywodraeth Cymru

### 4 Y diweddaraf gan Lywodraeth Cymru ar weithredu'r argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y trydydd Cynulliad ar 'Fuddsoddiad Cyfalaf mewn Ysgolion' (16.00 - 17.00) (Tudalennau 34 - 44)

PAC(4) 16-13 - Papur 3 - Y diweddaraf gan Lywodraeth Cymru ar 'Fuddsoddiad Cyfalaf mewn Ysgolion'

Owen Evans, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru

## 5 Papurau i'w nodi (Tudalennau 45 - 54)

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Eitem 7.

## 7 Ystyried y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru am weithredu'r argymhellion yn adroddiadau'r Pwyllgor (17.00 - 17.30)

**PAC(4) 16-13 – Papur 1**

**Diweddariad i Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru ar Arlwyo mewn Ysbytai a Maeth Cleifion**

| **Argymhellion Adroddiad y Pwyllgor** | | **Y Sefyllfa Bresennol** |
|---|---|---|
| 1 | Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau atodol i holl gyrff y GIG yng Nghymru yn nodi'n glir na ddylai polisi amseroedd bwyd a ddiogelir gael ei ddefnyddio i eithrio perthnasau a gofalwyr rhag helpu cleifion i fwyta, a bod y perthnasau a'r gofalwyr hynny sy'n dymuno helpu adeg bwyd gael eu hannog i wneud hynny gan staff y ward. | Anfonwyd llythyr gan y Prif Swyddog Meddygol/Prif Swyddog Nyrsio ym mis Mawrth 2012 yn atgoffa holl gyrff y GIG yng Nghymru bod amseroedd bwyd a ddiogelir yn rhan annatod o Lwybr Gofal Maethol Cymru Gyfan 2009, a bod angen i bob ysbyty gydymffurfio â hynny.<br><br>Nododd y llythyr yn glir na ddylai polisïau amseroedd bwyd a ddiogelir gael eu defnyddio i eithrio perthnasau a gofalwyr rhag helpu cleifion i fwyta, a bod y perthnasau a'r gofalwyr hynny sy'n dymuno helpu adeg bwyd gael eu hannog i wneud hynny gan staff y ward.<br><br>Tynnodd y llythyr sylw hefyd at enghreifftiau o arfer gorau ledled Cymru a ddangosir ar wefan Fframwaith Maeth ac Arlwyo mewn Ysbytai, yn seiliedig ar fewnrwyd Iechyd yng Nghymru (HOWIS gynt).<br><br>Rydym wrthi'n gweithio gyda Chymdeithas yr Arlwywyr Ysbytai, a fydd yn lansio ymgyrch yn canolbwyntio ar bwysigrwydd amseroedd bwyd a ddiogelir yn yr haf, er mwyn sicrhau y cyfleir negeseuon priodol.<br><br>Nododd Archwiliad Hanfodion Gofal 2012 fod yn rhaid i bob BILl/Ymddiriedolaeth GIG Felindre gael polisïau amseroedd bwyd a ddiogelir a bod gan 76.4% o wardiau amseroedd bwyd a ddiogelir a bod y 13.6% sy'n weddill wrthi yn eu cyflwyno. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae'r BILlau/Ymddiriedolaeth GIG Felindre oll wedi nodi nad yw eu polisïau amseroedd bwyd a ddiogelir yn eithrio perthnasau a gofalwyr rhag helpu eu cleifion i fwyta, a bod y perthnasau a'r gofalwyr hynny sy'n dymuno helpu adeg bwyd yn cael eu hannog i wneud hynny. |
| 2 | Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod byrddau iechyd lleol yn rhoi nodyn cyfarwyddyd Swyddfa Archwilio Cymru 'Bwyta'n Iach yn yr Ysbyty - Yr Hyn y Dylech ei Ddisgwyl' i bob claf ysbyty yng Nghymru ar adeg eu derbyn. | Roedd nifer o BILlau eisoes yn cynnwys gwybodaeth debyg i'r hyn a geir yn nodyn cyfarwyddyd Swyddfa Archwilio Cymru 'Bwyta'n Iach yn yr Ysbyty - Yr Hyn y Dylech ei Ddisgwyl' yn y pecynnau a roddant i gleifion pan gânt eu derbyn.<br><br>Anfonwyd llythyr Prif Swyddog Meddygol/Prif Swyddog Nyrsio ym mis Mawrth 2012 i holl gyrff y GIG yng Nghymru yn nodi'n glir, lle nad oedd BILlau/Ymddiriedolaeth Felindre yn dilyn yr arfer hwn, fod disgwyl iddynt naill ai ymgorffori'r wybodaeth hon ar faeth yn eu deunyddiau derbyn cleifion neu i anfon nodyn cyfarwyddyd Swyddfa Archwilio Cymru '*Bwyta'n Iach yn yr Ysbyty - Yr Hyn y Dylech ei Ddisgwyl'* at bob claf ysbyty yng Nghymru ar adeg ei dderbyn. Darparwyd dolen i'r PDF i'r sefydliadau hynny sy'n defnyddio cyhoeddiad Swyddfa Archwilio Cymru, i'w galluogi i argraffu copïau yn lleol. |
| 3 | Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i sicrhau bod cynnydd sefydliadau'r GIG wrth gyflawni eu cynlluniau gweithredu eu hunain yn cael ei fonitro'n llym a'i fod ar gael yn gyhoeddus. | Mae cyrff y GIG yn gyfrifol am fonitro'r gwaith o gyflawni eu cynlluniau gweithredu unigol eu hunain ar arlwyo a maeth, a dylai Byrddau'r GIG graffu ar gynnydd drwy eu Pwyllgorau Archwilio. Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff iechyd gynnwys eu cynlluniau gweithredu a'u diweddariadau ar gynnydd ar eu gwefannau. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn monitro'r ymrwymiad hwn a chydymffurfir yn llawn â hyn. |
| 4 | Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn monitro cynnydd cyrff y GIG wrth gyflawni ei chanllawiau, | Cynhelir y gwaith o archwilio cydymffurfiaeth â *Llwybr Gofal Maethol Cymru Gyfan* a *Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru Gyfan ar gyfer Bwyd a Diod* i Gleifion Preswyl mewn Ysbytai ym mhob un o gyrff perthnasol y GIG drwy broses Archwilio |

| | | |
|---|---|---|
| | gan gynnwys cyrchu bwyd lleol sy'n cyfrannu at ddeiet cytbwys iach i gleifion lle y bo'n bosibl. | Flynyddol Hanfodion Gofal. Mae Hanfodion Gofal - Bwyta ac Yfed Safon 9 wedi cael ei fapio yn erbyn Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru: Safon 5 - Cynnwys y Dinesydd a Chael Adborth; Safon 8 - Cynllunio a Darparu Gofal; a Safon 14 - Maethiad. Mae hyn yn sicrhau bod y broses archwilio yn cwmpasu'r Llwybr cyfan a'r Safonau Maeth ac Arlwyo.<br><br>Ers 2009 mae'n ofynnol i sefydliadau'r GIG gynnal archwiliad llawn o'u holl wardiau/adrannau ysbyty yn flynyddol a chyflwyno'r canlyniadau i'r Prif Swyddog Nyrsio/Cyfarwyddwr Nyrsio Cymru. Gall y system electronig sy'n sail i'r dull archwilio ddadansoddi a chreu adroddiadau o'r data a gofnodir ar lefel ward. Mae hefyd yn galluogi pob ward i ddatblygu cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n peri pryder yn ogystal ag adeiladu ar feysydd o arfer da. Mae cyrff y GIG yn adrodd ar amrywiaeth o ddulliau i rannu'r canlyniadau â grwpiau perthnasol o staff. Mae cyflwyno dull dilysu annibynnol ar gyfer y Broses Archwilio Hanfodion Gofal wrthi'n cael ei ystyried.<br><br>Mae cydymffurfiaeth mewn wardiau ysbyty ledled Cymru ag Archwiliad Hanfodion Gofal Safon 9: Bwyta ac Yfed, (*cynigir dewis o fwyd a diod i chi sy'n bodloni eich gofynion maethol a phersonol a chewch unrhyw gymorth sydd ei angen arnoch i fwyta ac yfed*) wedi cynyddu o gyfartaledd o 82% yn 2009 i 92% yn 2012 (gweler atodiad 1 am ddadansoddiad manwl gan BILl/Ymddiriedolaeth GIG Felindre).<br><br>Cyhoeddwyd crynodeb o ganlyniadau Archwiliad Hanfodion Gofal 2011 ar wefan Llywodraeth Cymru, gwefan y Comisiynydd Pobl Hŷn a Gwefan y Cynghorau Iechyd Cymuned. Caiff canlyniadau 2012 eu cyhoeddi erbyn diwedd mis Mai 2013.<br><br>Bydd y Prif Swyddog Nyrsio yn ymdrin ag unrhyw faterion sy'n codi o'r archwiliad yn ei chyfarfodydd rheolaidd â'r Cyfarwyddwyr Nyrsio.<br><br>Er mwyn cefnogi'r gwaith o roi Fframwaith Bwydlenni Ysbytai Cymru Gyfan ar waith |

| | | |
|---|---|---|
| | | mae BILlau wedi cyd-ariannu penodiad swydd deietegydd caffael o fewn Partneriaeth Cydwasanaethau'r GIG - Gwasanaethau Caffael. Mae'r deietegydd, a ddechreuodd yn y swydd ym mis Chwefror, yn cefnogi'r gwaith o sefydlu contractau caffael Cymru gyfan ar gyfer y prydau bwyd ar y Fframwaith, a fydd yn ystyried mater cyrchu yn lleol. |
| 5 | Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi manylion i ni am sut a phryd y gallwn ddisgwyl i dargedau lleihau gwastraff gael eu cyrraedd. | Roedd yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru i bob sefydliad yn y GIG gyflawni cyfartaledd cyffredinol o 10 y cant neu lai o wastraff mewn perthynas â phrydau bwyd heb eu cyffwrdd ar bob un o'u safleoedd ysbyty erbyn diwedd 2012-13. Caiff y gwaith o gydymffurfio â hyn ei fonitro drwy eu cynlluniau gweithredu a chan System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau. Mae'r BILlau/Ymddiriedolaeth GIG Felindre wedi rhoi mesurau ar waith i gyrraedd y targed hwn ac mae tystiolaeth o ffurflenni EFPMS 2011-12 yn dangos bod cynnydd yn cael ei wneud.<br><br>Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), Llywodraeth yr Alban, Gogledd Iwerddon a'r corff a noddir gan y Llywodraeth sef WRAP (Rhaglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau) i ddatblygu cytundeb gwirfoddol ar gyfer y Sector Lletygarwch. Mae hyn yn cynnwys targed lleihau gwastraff o bump y cant ar gyfer bwyd a gwastraff deunydd pacio erbyn 2015. Mae hefyd yn cynnwys targed ar gyfer cynyddu cyfradd y bwyd a'r gwastraff deunydd pacio sy'n cael ei hailgylchu, ei chompostio neu ei hanfon i safle treulio anaerobig erbyn 2015 (mae targed wrthi'n cael ei bennu â'r diwydiant). Bydd y cytundeb yn cynnwys gwasanaeth arlwyo mewn ysbytai, ar gyfer gwasanaethau i gleifion a rhai nad ydynt yn ymwneud â chleifion. Lansiwyd y cytundeb ym mis Mai 2012 ac anogir pob un o sefydliadau'r GIG i gymryd rhan. |
| 6 | Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i sicrhau yr arddangosir sgoriau hylendid bwyd | Ers mis Hydref 2010 mae'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd wedi bod ar waith ar sail wirfoddol yng Nghymru. Caiff ei redeg gan Awdurdodau Lleol mewn partneriaeth â'r Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae Awdurdodau Lleol yn cynnal archwiliadau o |

| | | |
|---|---|---|
| | yn gyhoeddus ym mhob ysbyty yng Nghymru. | fusnesau bwyd er mwyn cadarnhau eu bod yn bodloni gofynion cyfraith hylendid bwyd. Yn seiliedig ar yr archwiliad hwn, bydd yr awdurdod lleol yn cyfrifo'r sgôr ac yn anfon sticer gyda'r sgôr hylendid bwyd i'r busnes bwyd. Anogir y busnes bwyd i arddangos y sticer ar y safle; cyhoeddir pob sgôr hefyd ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.<br><br>Yn dilyn ymgynghoriad yn 2012 penderfynodd Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i'w gwneud yn orfodol i bob busnes bwyd yng Nghymru arddangos ei sgôr hylendid bwyd yng Nghymru. Cafodd Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 Gydsyniad Brenhinol ar 4 Mawrth 2013 a daw i rym o fis Tachwedd 2013. Bydd hyn yn cwmpasu gwasanaethau arlwyo mewn ysbytai.<br><br>Fel mesur dros dro ysgrifennodd y cyn-Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at holl Brif Weithredwyr a Chadeiryddion Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG ym mis Chwefror 2012 i sôn am gynllun gwirfoddol yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Gofynnodd y llythyr i bob ysbyty a phob un o safleoedd GIG Cymru a oedd wedi cael sgôr hylendid bwyd gan eu Hawdurdod Lleol i'w harddangos mewn man lle y gallai defnyddwyr ei gweld yn hawdd. |
| 7 | Rydym yn gofyn i'r Swyddog Cyfrifyddu roi cynllun i ni yn nodi sut a phryd y bydd Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd Lleol wedi gwneud y gwelliannau a argymhellwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol. | Lluniwyd cynllun ac fe'i hanfonwyd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Awst 2012.<br><br>Manylir ar y sefyllfa bresennol o ran argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Llywodraeth Cymru yn ail ran yr adroddiad hwn.<br><br>Mae cynnydd o ran gweithredu argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer BILlau/Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn ei adroddiad cenedlaethol *Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai* wedi ei fonitro gan Lywodraeth Cymru drwy adroddiadau ddwywaith y flwyddyn gan y BILlau/Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Mewn adroddiadau a gafwyd ym mis Ebrill 2013 mae pob BILl/Ymddiriedolaeth GIG |

| | | |
|---|---|---|
| | | Felindre yn nodi eu bod wedi gweithredu'r rhan fwyaf o'r argymhellion ac yn tynnu sylw at waith sy'n mynd rhagddo er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio. Adlewyrchir hyn yn y gydymffurfiaeth gynyddol â'r Archwiliad o Hanfodion Gofal Safon 9 fel y crybwyllir yn Atodiad 1. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro cydymffurfiaeth cyrff y GIG ac yn codi unrhyw faterion sy'n peri pryder gyda BILlau unigol/Ymdddiriedolaeth y GIG.<br><br>Mae'r camau gweithredu heb eu cymryd gan Lywodraeth Cymru a'r BILlau/Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn gysylltiedig â gweithredu'n llawn y datrysiad TG ar gyfer y Gwasanaeth Arlwyo Cenedlaethol gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru - Gwasanaethau Cyfleusterau (NWSSP-FS) sef Stadau Iechyd Cymru gynt a hefyd â datblygu Fframwaith Bwydlenni Ysbytai Cymru Gyfan. Gweler adrannau 2 a 3 isod am fanylion pellach am y cynnydd sy'n cael ei wneud ar yr agendâu hyn. |
| **Argymhellion Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer Llywodraeth Cymru** | | **Y Sefyllfa Bresennol** |
| 1 | Bod Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn cyhoeddi dogfennaeth nyrsio safonol i Gymru gyfan er mwyn hyrwyddo prosesau sgrinio maethol a chynllunio gofal cyson, ac er mwyn helpu i sicrhau yr ystyrir meysydd pwysig, fel iechyd y geg, yn briodol. | Mae Llwybr Gofal Maethol Cymru Gyfan, Siart Cofnodi Bwyd a Siart Bwyta ac Yfed Dyddiol ac Wythnosol yn cael eu defnyddio fel dogfennaeth nyrsio safonol ledled Cymru. Mae'r bwndel gofal y geg newydd, a lansiwyd yn 2012 ac sy'n cael ei gyflwyno ledled Cymru, yn cynnwys dull asesu safonol a chanllawiau cynllunio gofal.<br><br>Sefydlwyd is-grŵp o'r Grŵp Ôl-weithredu Rhyddid i Arwain, Rhyddid i Ofalu er mwyn adolygu'r holl ddogfennaeth nyrsio gyda'r bwriad o'i safoni ledled Cymru. Mae set ddata safonol o adroddiadau nyrsio bellach ar gael ar wefan e-Lawlyfr Llywodraethu GIG Cymru. Mae Gwasanaethau Gwybodaeth GIG Cymru wrthi'n gweithio gyda |

| | | |
|---|---|---|
| | | Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio i addasu'r set ddata ar adroddiadau i fformat digidol. |
| 2 | Bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ymarferoldeb cyflwyno cronfa ddata genedlaethol o fwydlenni safonol, wedi'u hasesu'n faethol fel ffordd o osgoi dyblygu ymdrech ym mhob un o sefydliadau'r GIG a gwneud y defnydd gorau o adnoddau deietegol cyfyngedig. | Er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu'r safonau maeth ac arlwyo, a gyflwynwyd ym mis Medi 2011, mae arlwywyr a deietegwyr ledled Cymru wedi bod yn cydweithio i lunio *Fframwaith Bwydlenni Ysbytai Cymru Gyfan*. Cwblhawyd cam un, yn cynnwys prydau bwyd ar gyfer deiet safonol, ac fe'i lansiwyd ar ddiwedd Ionawr 2013. Mae'r Fframwaith Bwydlenni yn cynnwys amrywiaeth o brydau bwyd penodol wedi'u hategu gan gronfa ddata o ryseitiau wedi'u dadansoddi'n faethol. Mae'n rhoi rhywfaint o hyblygrwydd er mwyn ymdopi â gofynion gwahanol ysbytai a'u grwpiau o gleifion. Y nod yw darparu bwydlenni modern er mwyn gwella profiad cyffredinol y claf, tra'n bodloni gofynion maethol pob claf.<br><br>Mae pob Bwrdd Iechyd wrthi'n adolygu ei fwydlenni cyfredol ac yn cyflwyno eitemau ar y fwydlen y cytunwyd arnynt, gan ddefnyddio'r ryseitiau safonol. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo ar fanylebau contract Cymru gyfan, er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau maeth ac er mwyn sicrhau bod yr holl gynhwysion sy'n ofynnol ar gontract Cymru gyfan.<br><br>Bydd y cam nesaf, a gaiff ei gwblhau erbyn diwedd Rhagfyr 2013, yn cynnwys yn canlynol:<br><br>• nodi eitemau ar y fwydlen sy'n addas ar gyfer deiet therapiwtig a bwydlenni pediatrig;<br>• datblygu templed Cymru gyfan ar gyfer pecyn canllaw ar fwydlenni a hyfforddiant craidd ar gyfer staff arlwyo a ward;<br>• datblygu canllawiau i gleifion ar ddewis bwydlenni. |
| 3 | Bod Llywodraeth Cymru, drwy Stadau Iechyd Cymru (WHE), yn | Cyflawnir y gwaith o weithredu'r datrysiad TG ar gyfer y Gwasanaeth Arlwyo Cenedlaethol gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) a Phartneriaeth |

| | | |
|---|---|---|
| | datblygu model clir ar gyfer costio gwasanaethau arlwyo i gleifion a gwasanaethau arlwyo nad ydynt yn ymwneud â chleifion a gaiff ei gymhwyso'n gyson ym mhob un o sefydliadau'r GIG fel y gellir gwneud cymariaethau ystyrlon o gostau arlwyo mewn ysbytai ledled Cymru. | Cydwasanaethau GIG Cymru - Gwasanaethau Cyfleusterau (NWSSP-FS) sef Stadau Iechyd Cymru gynt.<br><br>Gallai cyflwyno System TG ar gyfer y Gwasanaeth Arlwyo Cenedlaethol sicrhau buddiannau sylweddol i'r GIG yng Nghymru:<br><br>• Bydd yn arwain at well gwasanaeth a chynllunio ariannol ym mhob agwedd ar y gwasanaeth arlwyo;<br>• Bydd yn darparu'r wybodaeth fel y gall GIG Cymru ddarparu gwasanaeth arlwyo o'r dulliau a ddefnyddir ar hyn o bryd;<br>• Bydd yn cyflawni buddiannau byrdymor megis lleihau costau gweinyddol a chynhwysion;<br>• Bydd yn helpu i sicrhau nad yw gwasanaethau arlwyo i gleifion yn gweithredu ar golled;<br>• Bydd yn helpu i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau i gleifion mewnol er mwyn sicrhau y bodlonir safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau maethol.<br><br>Mae NWIS ac NWSSP-FS yn cynnal ymchwil i ystyried y ffordd orau ymlaen. Trefnwyd ymweliadau a chynhaliwyd cyfarfodydd â chwmnïau i ystyried a allent ddarparu'r datrysiadau angenrheidiol a pha fuddiannau y gallant eu cynnig. Bwriedir trefnu rhagor o ymweliadau. Y cynnig yw i NWIS gyflwyno Achos Busnes Amlinellol i Lywodraeth Cymru erbyn 7 Hydref. Bydd yr Achos Busnes Amlinellol yn destun proses graffu pan gaiff ei dderbyn ac ar ôl ymdrin â phob mater caiff ei gyflwyno i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am gymeradwyaeth. |
| 4 | Bod targedau lleol a chenedlaethol ar gyfer gwastraff bwyd yn cael eu pennu; fel canllaw dylai sefydliadau'r | Fel uchod yn adran 5. |

| | | |
|---|---|---|
| | GIG geisio sicrhau nad yw gwastraff o brydau bwyd nas gweiniwyd yn fwy na 10 y cant. | |
| 5 | Bod Llywodraeth Cymru yn dwyn ynghyd yr holl ganllawiau polisi perthnasol mewn perthynas â gwasanaeth arlwyo mewn ysbytai a maeth cleifion yn un fframwaith cenedlaethol cyfredol; dylai fframwaith cenedlaethol cyfredol gael ei lunio gan grŵp polisi amlddisgyblaethol ar gyfer arlwyo a maeth, sy'n dwyn ynghyd staff o adrannau amrywiol Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb am y gwasanaethau hyn. | Datblygwyd gwefan fewnrwyd sy'n dwyn ynghyd yr holl ganllawiau polisi sy'n cwmpasu gwasanaeth arlwyo mewn ysbytai a maeth cleifion. Mae'r wefan 'Fframwaith Maeth ac Arlwyo mewn Ysbytai', sy'n seiliedig ar fewnrwyd Iechyd yng Nghymru, ar gael ar bob ward ym mhob ysbyty drwy'r porth nyrsio.<br><br>Goruchwylir cynnwys y wefan gan Grŵp Cydgysylltwyr Maeth mewn Ysbytai Cymru Gyfan, sy'n cynnwys uwch nyrsys arweiniol, deietegwyr, therapyddion lleferydd ac iaith, arlwywyr a swyddogion perthnasol Llywodraeth Cymru. |
| 6 | Bod Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo pwysigrwydd data EFPMS fel dull o fonitro'r ddarpariaeth o wasanaethau a sicrhau bod digon o ganllawiau a hyfforddiant ar ddiffiniadau data ar gael i staff yng nghyrff y GIG sy'n cyflwyno gwybodaeth. | Mae'r data EFPMS a bennwyd mewn perthynas ag arlwyo wedi cael ei adolygu a'i ddiweddaru gyda chyrff y GIG. Cynhaliwyd cyfarfodydd er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth fanwl o ddiffiniadau'r data a'i fod yn cael ei gymhwyso'n gyson. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro cydymffurfiaeth cyrff y GIG.<br><br>Fel rhan o ymgynghoriad EFPMS â'r Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau cytunwyd y byddai targed perfformiad o 10% yn cael ei gyflwyno mewn perthynas â gwastraff bwyd. Ceir maes data bellach hefyd ar gyfer cyfanswm cost gwastraff bwyd.<br><br>Mae newidiadau i ddiffiniadau data EFPMS, gan gynnwys y rhai ar gyfer arlwyo a maeth wedi'u cwblhau yn unol â'r argymhellion gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r |

| | | |
|---|---|---|
| | | Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Mae NWSSP-FS, mewn trafodaeth â Llywodraeth Cymru, yn ystyried a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i ddiffiniadau data yn flynyddol. |
| 7 | Dylai staff Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud ag arlwyo a maeth wneud defnydd mwy cyfunol o ddata EFPMS, ynghyd â data a gasglwyd o'r archwiliadau blynyddol o Hanfodion Gofal, fel dull o ddarparu gwybodaeth am weithredu amcanion polisi cenedlaethol yn lleol. | Mae'r angen i wneud defnydd gwell a mwy cyfunol o ddata EFPMS wedi cael ei atgyfnerthu mewn cyfarfodydd â chyrff y GIG. Mae Grŵp Arlwyo Cymru Gyfan yn parhau i gyfarfod er mwyn sicrhau y trafodir y data ac y caiff ei gymharu ar sail genedlaethol. |

Atodiad 1

| | **Sgôr Weithredol % cydymffurfiaeth** | | | | **Profiad Defnyddwyr % sgôr** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 |
| BILI Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | 75 | 89.6 | 90.8 | 90.7 | 80 | 93 | 92.3 | 93.1 |
| BILI Aneurin Bevan | 81 | 87 | 89 | 90 | 90 | 89 | 94 | 92.7 |
| BILI Prifysgol Betsi Cadwaladr | 84.6 | 85.5 | 90.7 | 89.8 | 89.8 | 93.2 | 92 | 93.1 |
| BILI Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 75 | 90.08 | 90.5 | 90.01 | 79.1 | 91.7 | 90.7 | 91.8 |
| BILI Cwm Taf | 75.5 | 85 | 87 | 89 | 90.05 | 88 | 95 | 93 |
| BILI Hywel Dda | 81.5 | 87.4 | 88.4 | 91 | 88.5 | 92.1 | 93.1 | 94 |
| Bwrdd Addysgu Iechyd Powys | 82 | 92.8 | 94 | 91.8 | 92 | 95.1 | 93 | 97.3 |
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 74.7 | 81.7 | 88.7 | 95 | 74 | 87.3 | 91.9 | 87.5 |

**Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai**

http://abms/cy/documents/s5438/Arlwyo%20a%20Maeth%20Cleifion%20mewn%20Ysbytai%20-%20Adroddiad%20-%20Chwefror%202012.pdf

**Hospital catering and patient nutrition**

http://abms/documents/s5438/Hospital%20catering%20and%20patient%20nutrition%20Report%20-%20February%202012.pdf

**Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
**PAC(4) 16-13 – Papur 2**
**Diweddariad i Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus'**

| | **Argymhellion Adroddiad y Pwyllgor** | **Y Sefyllfa Bresennol** |
|---|---|---|
| 1 | Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i fonitro a chyhoeddi y cynnydd y mae'n ei wneud o ran gwella rheoli ariannol ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn golygu y caiff arfer da mewn rheoli ariannol ei rannu ar draws y sector cyhoeddus. | Mae **Is-adran Arweiniad Ariannol** Llywodraeth Cymru wedi cael ei sefydlu mewn partneriaeth â Sector Cyhoeddus Cymru. Nodau'r tîm yw gwella sgiliau arwain rheoli ariannol ar gyfer staff ariannol uwch ledled y sector cyhoeddus yng Nghymru a meithrin cymuned o weithwyr ariannol o'r ansawdd gorau yn y sector cyhoeddus, a fydd yn cyfrannu at weddnewid gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Wrth fwrw ymlaen â'r gwaith hwn, rydym yn ymgysylltu'n rheolaidd â'r cyrff cyfrifyddiaeth yng Nghymru.<br><br>Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Is-adran Arweiniad Ariannol yn<br><br>• cyflenwi **Rhaglen Arweiniad Ariannol** arloesol ac arbenigol i uwch arweinwyr ariannol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Yn y Rhaglen hon, mae arfer da ym maes arweiniad yn cael ei addysgu ac mae cymorth ar gael i wreiddio'r dysgu yn y gweithle. Rhagwelwn y bydd mwy nag 80 o uwch reolwyr ariannol yn dilyn y rhaglen cyn iddi ddod i ben ym mis Mehefin 2014.<br>• gwella rhwydweithio yng nghymuned gweithwyr ariannol y Sector Cyhoeddus yng Nghymru trwy Gynadleddau Cenedlaethol a Chyfarfodydd Rhanbarthol ddwywaith y flwyddyn yn ogystal ag amrywiaeth o ddigwyddiadau eraill sy'n cefnogi blaenoriaethau aelodau'r rhwydwaith e.e. cynhadledd ar gynaliadwyedd ym mis Chwefror 2013 a fynychwyd gan amrywiaeth o sefydliadau'r gwasanaeth cyhoeddus. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • ymchwilio i gyfleoedd, a darparu cyfleoedd, ar gyfer cydweithio yn y gymuned hon er mwyn sicrhau gwell gwerth am arian a rhannu arfer gorau ym maes rheoli ariannol. Mae hyn yn digwydd trwy'r cyfarfodydd rhanbarthol a thrwy'r rhaglen arweiniad<br>• gwella cyfathrebu ar bynciau o ddiddordeb cyffredin rhwng aelodau o'r rhwydwaith trwy wefan rhwydwaith arweiniad.<br><br>Yn unol ag amodau cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop, mae'n ofynnol i'r Is-adran Arweiniad Ariannol fonitro effeithiolrwydd ei holl weithgareddau. Caiff hyn ei adolygu bob chwarter gan WEFO a'i gofnodi trwy WEFO Ar-lein. Mae'r targedau cyflawnadwy allweddol a'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn achos pob gweithgaredd ar gael ar wefan y Rhwydwaith Arweiniad Ariannol sy'n adnodd diogel y gall holl aelodau'r Rhwydwaith ei gyrchu. |
| 2 | Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau pellach i annog Awdurdodau Lleol i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i gefnogi gweddnewid, tra'n sicrhau eu bod yn cynnal lefel ddarbodus o gronfeydd wrth gefn er mwyn rheoli risgiau a gofynion yn y dyfodol. | Fel y nodwyd yn yr ymateb blaenorol, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol reoli eu cronfeydd wrth gefn yn unol â gofynion statudol a chanllawiau ac maent yn atebol am y penderfyniadau a wnânt ynghylch y defnydd ohonynt. Mae Awdurdodau hefyd yn atebol am benderfyniadau ynghylch blaenoriaethu eu hadnoddau ariannol, gan gymryd i ystyriaeth anghenion ac amgylchiadau lleol, a hwy sydd yn y lle gorau i wneud y penderfyniadau hynny.<br><br>Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru'n annog Awdurdodau i fuddsoddi mewn gweithgarwch gweddnewidiol. Ym mis Mawrth 2012, comisiynodd Llywodraeth Cymru Swyddfa Archwilio Cymru i wneud ymchwil benodol i gronfeydd wrth gefn Awdurdodau Lleol. Roedd yr ymchwil wedi'i chynllunio i wella'r gyd-ddealltwriaeth o'r ffordd mae Awdurdodau Lleol yn rheoli cronfeydd wrth gefn i gefnogi eu strategaethau ariannol gan gynnwys gweithgareddau gweddnewid. Mae'r adroddiad terfynol wedi'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru (http://wales.gov.uk/topics/localgovernment/research/lareserve/?skip=1&lang=cy). |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae’n nodi lle i wella’r gwaith o adrodd ar y ffordd y rheolir cronfeydd wrth gefn gan Awdurdodau Lleol. Mae’r canfyddiadau hyn wedi cael eu dosbarthu gan Lywodraeth Cymru i Awdurdodau a chan Swyddfa Archwilio Cymru i’w harchwilwyr. Mae Awdurdodau Lleol wedi cael eu hannog i gydweithio gyda’u harchwilwyr i wella’r gwaith o adrodd ar y ffordd y rheolir cronfeydd wrth gefn trwy bethau fel edrych ar enghreifftiau o arfer gorau.<br><br>Mae’r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth wedi dangos diddordeb byw yn y gwaith hwn a bydd yn ceisio ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol ymhellach ar y mater hwn. |
| 3 | Rydym yn argymell, yn unol â barn Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, fod Llywodraeth Cymru yn dwyn uwch reolwyr Byrddau Iechyd Lleol i gyfrif am eu cyfrifoldebau rheoli ariannol statudol ym mlwyddyn ariannol 2011-2012. Mewn blynyddoedd dilynol, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gosod fframwaith atebolrwydd ariannol i Fyrddau Iechyd Lleol er mwyn hyrwyddo cynllunio ariannol effeithiol a darparu gwasanaethau’n effeithiol yn unol â chyfrifoldebau statudol. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am gymelliadau a chosbau i uwch reolwyr fel sy’n briodol. | Ar gyfer blwyddyn ariannol 2012/13 mae’r trefniadau i ddwyn Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau i gyfrif am eu cyfrifoldebau rheoli ariannol wedi cael eu cryfhau trwy Adolygiadau Canol-blwyddyn unigol gyda’r holl Brif Weithredwyr a rhagor o adolygiadau unigol drwy gydol y cyfnod o fis Hydref 2012 i fis Ionawr 2013. Hefyd mae’r trefniadau Fframwaith Cyflawni a Rheoli Perfformiad wedi cael eu diweddaru i ddilyn dull mwy integredig sy’n cynnwys ansawdd, gweithgarwch, targedau perfformiad a chyllid.<br><br>Er bod Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau wedi cael eu hannog i gydweithio i wneud cyfraniad cadarnhaol, mae Llywodraeth Cymru wedi atgoffa Prif Weithredwyr unigol yn barhaus am eu hatebolrwydd am eu perfformiad ariannol eu hunain. Mae Prif Weithredwr GIG Cymru wedi ysgrifennu at yr holl Brif Weithredwyr, gan bwysleisio y bydd methu â chyflawni cyfrifoldebau statudol o ran rheoli ariannol yn arwain at roi barn amodol ar y cyfrifon a chymryd camau pellach.<br><br>At hynny mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio ar gyflwyno trefn ariannol newydd i’r GIG sy’n nodi ac yn cryfhau’r trefniadau atebolrwydd yn y dyfodol. Mae’r gwaith wedi canolbwyntio ar well cynllunio yn y tymor canolig a’r tymor hirach gan integreiddio’r elfennau ariannol, gweithlu a gwasanaeth yn well. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae cam cyntaf y dull integredig hwn o gynllunio yn y tymor canolig wedi cael ei weithredu fel rhan o gylch cynllunio 2013/14. Roedd y broses hon yn cynnwys fframwaith ac amserlen cynllunio i gynnwys canllawiau cynllunio, templedi a chyflwyniadau drafft, oedd yn cael eu cefnogi gan gyfarfodydd Cyfarwyddwyr Gweithredol i adolygu a herio cynlluniau drafft ac i gynorthwyo Cyrff Iechyd i roi'r wedd derfynol ar gynlluniau integredig mantoledig. |
| 4 | Rydym yn argymell bod Byrddau Iechyd Lleol yn cael eu galluogi i wneud defnydd mwy effeithiol o gyllid o'r naill flwyddyn ariannol i'r llall yn yr un modd ag Awdurdodau Lleol. Byddai hyn yn galluogi gwell cynllunio ariannol yn y tymor canolig a'r tymor hirach. | I gynorthwyo â'r dull integredig o gynllunio yn y tymor canolig (y cyfeiriwyd ato wrth ymateb i argymhelliad 3) mae'r gwaith wedi canolbwyntio ar gynyddu hyblygrwydd ariannol i gynorthwyo â rheoli ariannol cadarn o'r naill flwyddyn ariannol i'r llall. Er y bydd newidiadau i fynd i'r afael â'r cyfyngiadau ariannol blynyddol cyfredol a osodir gan y ddeddfwriaeth bresennol yn cymryd rhywfaint o amser, mae opsiynau y gellir eu gweithredu o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol yn cael eu hystyried. Maent yn cynnwys atebion yn y tymor hirach (Hyblygrwydd Ariannol Cynlluniedig) ac yn y tymor byrrach (Cronfa Froceriaeth y GIG).<br><br>Mae'r trefniant Hyblygrwydd Ariannol Cynlluniedig yn cael ei ddatblygu i gynorthwyo â chynllunio a'r cylch ariannol yn y tymor hirach a bydd yn darparu hyblygrwydd adnoddau wedi'i gysylltu â chynllun ariannol tymor canolig, integredig, mantoledig a chymeradwy. Rhagwelir y byddai Byrddau Iechyd Lleol yn gofyn am Hyblygrwydd Ariannol Cynlluniedig pan fo Byrddau'n rhagweld y byddent yn profi amrywiadau ariannol o fewn cynllun ariannol 3 blynedd mantoledig. Byddai'r Hyblygrwydd Ariannol Cynlluniedig yn destun proses gwerthuso a chymeradwyo gadarn, gan gynnwys ystyried yr adnoddau fyddai ar gael i gynnal yr hyblygrwydd hwn.<br><br>Lle bo problemau ariannol a heriau tymor byr penodol yn ystod y flwyddyn na ellir o angenrheidrwydd eu cynllunio neu eu rhagweld yn hawdd, bydd trefniadau hyblygrwydd tymor byrrach yn bodoli. Felly mae trefniant broceriaeth mwy ffurfiol yn ystod y flwyddyn yn cael ei ddatblygu, er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfaoedd hynny |

| | | |
|---|---|---|
| | | lle bo amgylchiadau nas rhagwelwyd efallai'n achosi anawsterau i fyrddau iechyd fantoli eu cyfrifon a chydymffurfio â'u Terfyn Adnoddau statudol presennol. |
| 5 | Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cyrff unigol y GIG yn cyhoeddi'r cynlluniau ar gyfer gweddnewid gwasanaethau a'r dadansoddiad sy'n sail i'r cynlluniau hynny, gan gynnwys yr effaith debygol ar gleifion a'r gymuned ehangach. | Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyhoeddi canllawiau yn nodi'r ffordd y mae'n disgwyl i sefydliadau'r GIG ymgysylltu ac ymgynghori ar gynlluniau ar gyfer gweddnewid gwasanaethau. Yn y canllawiau dywedir:<br><br>"Wrth reoli newidiadau i wasanaethau, dylai corff GIG: nodi sail resymegol glir ar gyfer newid, wedi'i chefnogi gan achos clinigol sy'n dangos buddion newid a risgiau aros yr un peth."<br><br>Mae Cyfarwyddwr Cenedlaethol Law yn Llaw at Iechyd yn cydweithio'n agos gyda Chyfarwyddwr Cenedlaethol y Cynghorau Iechyd Cymuned a Chyfarwyddwyr Llywodraethu Byrddau Iechyd i sicrhau bod yr holl brosesau'n gyson â'r canllawiau cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Fforwm Clinigol Cenedlaethol yn rhoi sicrwydd bod y cynlluniau'n darparu sail ar gyfer cyflenwi gwasanaethau mewn ffordd ddiogel a chynaliadwy ac yn cyfuno i greu ffordd realistig ac uchelgeisiol ymlaen ym maes gofal iechyd yng Nghymru.<br><br>Byrddau Iechyd unigol fydd yn gyfrifol am weithredu cynlluniau lleol yn dilyn ymgysylltu helaeth yn lleol ac ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo trwy brosesau llywodraethu priodol y Byrddau. Bydd Llywodraeth Cymru'n monitro'r cynnydd yn fanwl trwy'r trefniadau rheoli perfformiad sy'n bodoli eisoes yn ganolog.<br><br>Mae'r Cynghorau Iechyd Cymuned yn chwarae rhan hanfodol wrth graffu ar y gwaith o weithredu'r cynlluniau'n lleol a chynorthwyo â'r gwaith hwnnw. |
| 6 | Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r dulliau presennol | Mae Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus[1], a'i Raglenni Gwaith Cenedlaethol, yn ysgogi'r gwaith o hybu arfer da trwy amrywiaeth o ddulliau. Mae Grŵp Arwain y |

| | | |
|---|---|---|
| | o rannu arfer da, fel hyrwyddo’r defnydd o Gyfnewid Arfer Da ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru, er mwyn dwyn at ei gilydd mewn ffordd systematig nodweddion arfer da o bob rhan o’r sector cyhoeddus, ac er mwyn sicrhau y gellir trosglwyddo arfer o’r fath mewn ffordd effeithiol i wasanaethau’n lleol. | Gwasanaeth Cyhoeddus yn cael ei gadeirio gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, Lesley Griffiths AC. Mae’n cynnwys uwch arweinwyr sy’n cynrychioli gwasanaethau cyhoeddus ac ardaloedd ledled Cymru (mae Atodiad 1 yn rhoi gwybodaeth am yr aelodau). Er mwyn sicrhau arweiniad gwleidyddol ac atebolrwydd, mae Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus yn cydweithio gyda’r corff statudol, diwygiedig, Cyngor Partneriaeth Cymru, a’i is-grŵp, y Grŵp Cyflawni Diwygio. Mae 4 rhaglen waith genedlaethol sy’n cael eu harwain gan Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus[2].<br><br>Mae hybu arfer da yn un o elfennau allweddol ein rhaglen i ddiwygio’r gwasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn dechrau gydag ysgogiad arweiniol cryf; mae’r aelodau wedi ymrwymo i hybu’r gwaith o ledaenu arfer da, gan ddefnyddio eu swyddi fel arweinwyr rhanbarthol a lleol, gan gynnwys hybu ac atgyfnerthu ethos methodolegau gwelliant parhaus megis Dulliau Darbodus, Six-Sigma, Kafka, Meddwl trwy Systemau. Mae hyn yn dal i fod yn nodwedd hanfodol a pharhaus yn ein dull cydarwain o ganfod a rhannu arfer da ar draws y sector cyhoeddus, ac yn arbennig lle bo’r gwaith cyflenwi’n galw am gynnwys mwy nag un sector neu sefydliad.<br><br>Yn fwy penodol, mae’r rhaglen waith Datblygu Sefydliadol a Gweithredu Argymhellion Simpson yn cynorthwyo â gwaith y Gymuned Ymarfer Gwelliant Parhaus. Mae’r grŵp hwn, a sefydlwyd ym mis Mehefin 2012, yn meithrin rhwydwaith ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru i gyd-ddatblygu’r gallu i fwrw ymlaen â gweithgareddau gwelliant parhaus, gan gynnwys Dulliau Darbodus. Ar hyn o bryd mae’n datblygu gwefan sy’n cynnwys astudiaethau achos gwelliant parhaus o bob rhan o’r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, yn ogystal â darparu dolenni i wybodaeth berthnasol sy’n bodoli eisoes yng Nghymru megis Cyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru a gwefan Arfer Da Cymru.<br><br>Defnyddiodd rhaglen waith Gwasanaethau Effeithiol i Grwpiau Agored i Niwed |

| | | |
|---|---|---|
| | | rwydwaith y Byrddau Gwasanaethau Lleol i rannu gwersi ar waith ’10,000 o Fywydau Diogelach’ wrth leihau trais domestig. Achubodd Byrddau Gwasanaethau Lleol ar y cyfle i ystyried a thrafod gwaith y prosiect pwysig hwn ac ystyried sut y gellid ystyried y gwersi yn eu maes hwythau.<br><br>Mae rhaglen waith Gwasanaethau Effeithiol i Grwpiau Agored i Niwed hefyd wedi defnyddio’r Knowledge Hub i gynorthwyo ymarferwyr i gydweithio ar lein. Y Knowledge Hub yw olynydd menter lwyddiannus Communities of Practice for Public Service a gynhaliwyd gan yr Improvement and Development Agency (IDeA) ac sydd bellach yn rhan o’r LGA yn Lloegr. Mae Arfer Da Cymru, a gynhelir gan GLILC, yn ymwybodol o’r Knowledge Hub ac ar hyn o bryd mae’n cyfeirio pobl ato yn hytrach na cheisio ei ddyblygu yng Nghymru. Mae’r rhaglen hon hefyd wedi defnyddio sianelau cyfathrebu arloesol, megis webinarau (gan gydweithio gyda’r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol) i godi ymwybyddiaeth o ddulliau effeithiol sy’n bodoli neu sy’n cael eu datblygu ledled Cymru.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru’n defnyddio’r rhan Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus o’n gwefan[3] i gysylltu â gwefannau perthnasol sy’n hybu arfer da, megis y Gyfnewidfa Arfer Da. Mae’r porthol hwn yn cyfeirio at fwy na 2000 o astudiaethau achos arfer da ac yn cael rhwng 6,000 a 10,000 o drawiadau bob mis. |
| 7 | Rydym yn argymell bod y Grŵp Arwain Gwasanaethau Cyhoeddus yn adnabod yr enghreifftiau o arfer da y mae’r heddlu a’r gwasanaethau tân ac achub wedi eu gweithredu i ddarparu gwasanaethau o fewn y gyllideb, ac yn dysgu oddi wrthynt a’u hyrwyddo, a’i fod yn gwneud defnydd da o gydweithredu ac yn | Mae’r Heddlu a’r Gwasanaethau Tân ac Achub yn parhau i chwarae rhan flaenllaw yn y rhaglenni gwaith cenedlaethol a rhwydweithiau arwain rhanbarthol Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus. Fel rhan o raglen waith Gwasanaethau Effeithiol i Grwpiau Agored i Niwed rydym yn datblygu dull o rannu profiadau’r Gwasanaeth Tân wrth gofnodi’r buddion i’r gwasanaeth sy’n deillio o’i weithgareddau atal.<br><br>Mae cynrychiolydd o’r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, a benodwyd yn ddiweddar, hefyd wedi ymuno â’r Grŵp Cyflawni Diwygio. Bydd yr ychwanegiad hwn yn golygu y bydd yr arweinwyr gwleidyddol hynny’n cael eu cynnwys yn gryfach byth yn y |

| | | |
|---|---|---|
| | cyflawni newid gweddnewidiol. | gwaith a wneir yn y gwasanaethau brys, gan fod y gwasanaethau brys yn cydgysylltu eu cydweithrediad eu hunain trwy Gyd-grŵp Gwasanaethau Brys sy’n cael ei gadeirio gan Brif Gwnstabl.<br><br>Mae’r gwasanaethau brys hefyd yn defnyddio eu profiadau i lywio’r gwaith o ddatblygu arfer da wrth gymhwyso gwelliant parhaus, gan chwarae rhan weithredol yn y Gymuned Arfer a sefydlwyd o dan y rhaglen waith Datblygu Sefydliadol a Gweithredu Argymhellion Simpson.<br><br>Mae’r Gronfa Cydweithredu Rhanbarthol, a sefydlwyd yn ddiweddar, wedi cael nifer o gynigion sy’n cynnwys y gwasanaethau brys ac sy’n golygu cydweithredu ar draws y gwasanaeth cyhoeddus ehangach. Er enghraifft, mae Gogledd Cymru wedi cyflwyno cais Atal Masnachu mewn Pobl, sy’n cynnwys yr heddlu, y gwasanaeth tân ac achub, y bwrdd iechyd ac awdurdodau lleol. Bydd y prosiectau hyn yn caniatáu i fodelau o arfer da gael eu datblygu a’u rhannu’n ehangach er mwyn ad-drefnu ac integreiddio gwasanaethau i ddiwallu anghenion pobl yn well. Bydd y gwaith hwn, ochr yn ochr â gwaith y rhaglen Gwasanaethau Effeithiol i Grwpiau Agored i Niwed, yn arddangos dulliau newydd i rannau eraill o Gymru ac i feysydd eraill Diogelu a Diogelu’r Cyhoedd.<br><br>Un enghraifft benodol o fan lle mae’r gwasanaethau brys wedi cymryd yr awenau yw yng Ngwent lle mae’r heddlu wedi arwain prosiect amlasiantaethol, a lansiwyd ym mis Mawrth 2013, i gyflenwi ffordd well o ymateb i blant a phobl ifanc sy’n mynd ar goll dro ar ôl tro. Nid yn unig mae’r prosiect hwn yn cynnig buddion gwirioneddol i ddefnyddwyr gwasanaethau, ond hefyd mae yna fuddion ariannol i’r math hwn o arfer da – mae ymateb i un plentyn yn mynd ar goll dro ar ôl tro yn gallu costio cannoedd o filoedd o bunnoedd i wasanaethau cyhoeddus. Mae’r dadansoddiad a wnaethpwyd yng Ngwent yn amcangyfrif cost o fwy na £2 miliwn y flwyddyn i sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus yng Ngwent, mewn cysylltiad â phobl sydd ar goll. |

| | | |
|---|---|---|
| 8 | Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo model Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer lleihau costau ymhlith yr holl wasanaethau cyhoeddus i'w helpu i leddfu effeithiau'r toriadau a chydweithio i ystyried blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. | Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi Swyddfa Archwilio Cymru wrth iddi hyrwyddo ei model lleihau costau. Rydym wedi sicrhau bod dolenni i Ganllaw i Leihau Costau Swyddfa Archwilio Cymru ar gael ar rannau perthnasol o wefan Llywodraeth Cymru, er enghraifft ar y dudalen we Gwella'r Gwasanaethau Cyhoeddus.<br><br>Yn ychwanegol mae'r Rhwydwaith Arweiniad Ariannol, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i wella arweiniad ariannol ar draws y sector cyhoeddus trwy weithio fel cymuned i gyd-ddysgu a chyd-ddatblygu technegau arweiniad ariannol i weddnewid gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, yn hybu model Swyddfa Archwilio Cymru gan gyfeirio pobl ato ar ei wefan. Mae cynhadledd genedlaethol chwe-misol y Rhwydwaith Arweiniad Ariannol (fydd yn digwydd ym mis Hydref 2013) yn cael ei chyd-gynnal gyda Swyddfa Archwilio Cymru ac yn darparu cyfle da arall i atgyfnerthu'r defnydd o'r model hwn. |
| 9 | Rydym yn argymell bod y Grŵp Arwain Gwasanaethau Cyhoeddus yn adeiladu ar y cynnydd a wnaeth y Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi drwy sicrhau bod yr arfer da a nodwyd drwy'r meddylfryd Darbodus/Systemau a dull y Kafka Brigade yn cael ei hyrwyddo'n frwd ar draws y sector cyhoeddus. | Mae hybu methodolegau gwelliant parhaus yn un o egwyddorion allweddol Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus a'i raglenni gwaith cenedlaethol.<br><br>Bu i ddull y Kafka Brigade ddylanwadu'n uniongyrchol ar y prosiect "10,000 o Fywydau Diogelach", a adeiladodd ar y gwersi o'r prosiectau dan arweiniad y Kafka Brigade yn Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Chasnewydd i nodi arfer gorau yn y ffordd mae sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus yn ymateb i ddioddefwyr posibl camdriniaeth ddomestig. Nododd y prosiect set o 'safonau gofynnol' a chwestiynau allweddol y dylai staff y rheng flaen eu gofyn.<br><br>Yn ehangach mae egwyddorion Kafka, sef gwella gwasanaethau trwy edrych arnynt o safbwynt defnyddiwr gwasanaethau, yn greiddiol i raglen waith Gwasanaethau Effeithiol i Grwpiau Agored i Niwed Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus. O dan y rhaglen waith hon mae yna brosiect sy'n edrych yn benodol ar hybu mabwysiadu |

| | | |
|---|---|---|
| | | dull 'cymorth dan gyfarwyddyd y dinesydd' o gyflenwi gwasanaethau. Bu i brosiect arall oedd yn ceisio gwella'r ymateb i blant sy'n mynd ar goll yn gwneud gwaith ymgysylltu helaeth gyda defnyddwyr gwasanaethau (pobl ifanc a'u gofalwyr) er mwyn creu darlun o'r arferion presennol. Mae safbwyntiau'r bobl ifanc wedi cael dylanwad mawr ar y dull newydd, gan gynnwys comisiynu gwasanaeth ôl-drafodaeth annibynnol newydd.<br><br>Fel y nodwyd yn yr ymateb i argymhelliad 6, mae'r rhaglen waith Datblygu Sefydliadol a Gweithredu Argymhellion Simpson wedi hybu creu cymuned ymarfer genedlaethol ar gyfer ymarferwyr gwelliant parhaus. Mae'r gwaith hwn, sy'n cael ei gefnogi gan raglenni dysgu Academi Wales o eiddo Llywodraeth Cymru, yn cynnwys ymarferwyr arbenigol o bob rhan o Wasanaeth Cyhoeddus Cymru. Mae'r grŵp yn adeiladu llyfrgell o ymyriadau system a gyflawnwyd ac yn datblygu astudiaethau achos i nodi'n glir y canlyniadau a'r gwersi a ddysgwyd o'r ymyriadau hyn er mwyn hybu dysgu ac arfer da. Un enghraifft o arfer da sydd wedi cael ei rannu eisoes ymysg y grŵp yw honno o'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Ar y cyd gyda phartneriaid sy'n awdurdodau lleol, ailgynlluniodd ei broses ar gyfer ymgynghori ar reoliadau adeiladu. Wrth wneud hynny llwyddodd i wella'r gwasanaeth yr oedd yn ei gynnig, ac ar yr un pryd sicrhau gostyngiad o oddeutu 75% yng nghost pob ymyriad.<br><br>Mae Academi Wales yn cynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu rhaglen dysgu a datblygu achrededig i gynorthwyo ymarferwyr i ddatblygu eu sgiliau a'u cymwyseddau gwelliant parhaus er mwyn gwella systemau. Mae'r Gymuned Ymarfer yn cynnal cynhadledd genedlaethol ym mis Medi i hybu'r methodolegau hyn ymhellach. |
| 10 | Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn monitro'n gadarn berfformiad ei model ar gyfer cydweithio rhanbarthol. Rydym yn credu y dylai unrhyw fodel sicrhau | Mae'r patrwm Cydweithredu Rhanbarthol wedi'i hen sefydlu ac yn cael ei atgyfnerthu gan fod aelodaeth gynrychioladol Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus a'r Cyngor Partneriaeth ar y sail honno.<br><br>Mae adborth uniongyrchol wedi awgrymu bod arweinwyr, swyddogion gweithredol a |

| | | |
|---|---|---|
| | bod cynghorwyr a dinasyddion yn ganolog i drafodaethau ar y ffordd y mae gwasanaethau lleol yn cael eu darparu a bod llywodraethu ac atebolrwydd priodol. | swyddogion y gwasanaeth cyhoeddus wedi cydnabod yr angen i gydweithredu a'u bod yn gweithredu ar y sail hon fwyfwy, gan fynd ati i chwilio am gyfleoedd i gydweithio.<br><br>Bu i'r Gronfa Cydweithredu Rhanbarthol, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2012, atgyfnerthu cydweithredu ar y patrwm, trwy ofyn am i geisiadau gael eu cyflwyno ar fap y patrwm gan yr arweinwyr rhanbarthol. Mae ceisiadau wedi cael eu cyflwyno i gyflawni amrywiaeth o brosiectau gwirioneddol gydweithredol ar draws y gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, heddlu a'r gwasanaeth tân ac achub, ochr yn ochr ag Awdurdodau Lleol. Gan fwyaf mae'r prosiectau hyn wedi'u llunio ar sail y patrwm. Caiff prosiectau eu gwerthuso'n unigol, a bydd eu heffaith fel cyfanwaith hefyd yn cael ei hasesu, er mwyn ystyried effeithiolrwydd y gronfa wrth ysgogi agenda fwy cydweithredol. Mae'r Gronfa Cydweithredu Rhanbarthol wedi ystyried prosiectau i wella gwasanaethau a chydnerthedd, yn ogystal â sicrhau buddion ariannol. Er enghraifft, mae prosiect Caerdydd a'r Fro i ailfodelu Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion a'u hintegreiddio gydag iechyd wedi canfod arbedion dangosol o oddeutu £2.5miliwn yn y tair blynedd gyntaf. Bydd hyn yn caniatáu i'r rhanbarth ateb y cynnydd yn y galw, y disgwylir iddo fod yn 4-8%, yn well.<br><br>Mae'r gwaith o dan raglen Datblygu Sefydliadol a Gweithredu Argymhellion Simpson Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus wedi annog ardaloedd i ystyried pa mor briodol yw symud gwasanaethau i batrwm rhanbarthol neu genedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio gyda Llywodraeth Leol i sicrhau bod modelau llywodraethu priodol yn cael eu creu i gefnogi cydweithredu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol effeithiol. Mae Rheoliadau a fydd yn caniatáu sefydlu cydbwyllgorau trosolwg a chraffu o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yn gynnar ym mis Mai 2013 ac, os bydd y Cynulliad yn eu cymeradwyo, byddant yn dod i rym yn hwyr ym mis Mai 2013. Bydd y Rheoliadau hyn yn cael eu cefnogi gan ganllawiau statudol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae'r Rhaglen Lywodraethu'n cynnwys cyfres o ddiwygiadau ac adolygiadau i gryfhau'r broses o gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus effeithlon, effeithiol a hygyrch. Sefydlwyd y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus i ddarparu cyngor awdurdodol allanol ar sut i symud ymlaen o ran llywodraethu a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus er mwyn ymateb i ddisgwyliadau ac anghenion pobl. Bydd yn darparu cyfle i'r rheiny sy'n ymwneud â chyflenwi gwasanaethau, y rheiny sy'n atebol yn wleidyddol amdanynt, a'r rheiny sy'n eu defnyddio, i edrych ar y ffordd mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu llywodraethu; hynny yw, eu dal i gyfrif am eu perfformiad a'u cyflenwi yn y ffordd fwyaf effeithiol i'r cyhoedd. |
| 11 | Rydym yn argymell bod y Swyddog Cyfrifyddu yn rhoi diweddariad i ni o fewn 12 mis ar y cynnydd o ran cyflawni argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol a'n hargymhellion ni . | Mae'r ymateb cyfredol hwn yn bodloni'r argymhelliad hwn. |
| **Argymhellion Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru** | | **Y Sefyllfa Bresennol** |
| 1 | Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Grŵp Arwain Gwasanaethau Cyhoeddus newydd yn lle'r Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi i'r sector cyhoeddus cyfan. Roedd y Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi wedi llwyddo i ddwyn ynghyd arweinwyr yn y sector cyhoeddus i nodi gwahanol ffyrdd o dorri | Mae Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus a'i raglenni gwaith ac is-grwpiau cysylltiedig yn parhau i ysgogi'r gwaith diwygio'r gwasanaeth cyhoeddus. Mae cynrychiolwyr o bob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus yn chwarae rhan weithredol wrth hybu gwelliant gwasanaethau a gwell cydnerthedd a sicrhau arbedion cost.<br><br>Mae rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector cyhoeddus yn cymryd rhan yng ngwaith y Grŵp Cyflawni Diwygio a Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus a'i raglenni gwaith ac is-grwpiau. Mae hyn yn cynnwys cynrychiolwyr uwch o Lywodraeth Leol; Byrddau Iechyd; y Gwasanaeth Tân ac Achub; a'r Heddlu. Yn ogystal, mae'r trydydd sector |

| | | |
